| | |
|---|---|
| Cyfarfod: | **Y Cyngor llawn** |
| Dyddiad: | **4 Mawrth 2021** |
| Pwnc: | **Cyllideb 2021/22** |
| Aelod Cabinet: | **Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid** |
| Swyddog Cyswllt: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| Pwrpas: | **Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2021/22** |

---

**CYLLIDEB 2021/22**

**Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn yw y dylid:**

1. **Sefydlu cyllideb o £271,751,360 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £76,958,220 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.**

   Pe bai'r Cyngor llawn yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor o 50% i 100%, yna byddai'r ffigyrau yn argymhelliad 1 uchod yn newid fel a ganlyn, gyda'r cynnyrch premiwm Treth Cyngor ychwanegol wedi'i neilltuo i gronfa benodol.

   **Sefydlu cyllideb o £275,669,610 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £80,876,470 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £47,085,960 yn 2021/22 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor **3.7%** yn gynnydd wythnosol o £1.02, neu £52.92 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o **£1,483.23** am 2021/22 (mae'r elfennau hyn yn aros yr un fath gyda Premiwm o nail ai 50% neu 100%).

Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn **y penderfyniad ffurfiol sy'n Atodiad 11.**

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22.

1.2 Eleni, erbyn 2021/22, mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant sy'n cyfarch chwyddiant, ac yn setliad mwy teg na fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau i ariannu cynnydd sydd bron yn anorfod yng nghost rhai gwasanaethau craidd ynghyd â chodi'r Dreth 3.7%.

1.3 Argymhellir codi'r Dreth 3.7% yn 2021/22 er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol i bobl Gwynedd, gan fyddai'n anymarferol i weithredu cynlluniau arbedion ychwanegol eleni.

1.4 Wedi ymgynghori gyda mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (11 Chwefror), mae'r Cabinet (16 Chwefror) wedi argymell cyllideb cytbwys a phriodol i'r Cyngor (4 Mawrth) ar gyfer 2021/22.

1.5 Erbyn 2021/22, byddai angen cynyddu ein gwariant craidd o £10.6m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £3.6m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, amcangyfrifir gellid cynaeafu £725k yn 2021/22 o'r cynlluniau arbedion cynllunwyd eisoes (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3), ond wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 3.7% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).

1.7 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau yn 2019, a adolygwyd yn 2020, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £47,085,960 yn 2021/22, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.8 Bwriedir modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2021/22 – 2023/24) yn ystod haf 2021, ar ôl Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Canghellor Llywodraeth y DU, gan fod risg y bydd newid sylfaenol yng ngynlluniau'r Llywodraeth. Mae'n bosib y bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol, ond bwriedir ystyried hynny ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.

1.9 Mae cyllideb 2021/22 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 3.7% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Mae'r cynlluniau arbedion a gynlluniwyd yn flaenorol wedi'u dethol yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir fod darganfod a chyflawni arbedion yn fwy heriol erbyn hyn.

1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2021/22 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2021/22, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2020/21.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2021/22. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

| **Grant Cynnal Refeniw 2020/21 – 2021/22** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd swyddogol £** | **Cyngor Gwynedd "cash" £** |
|---|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2020/21 | | 4,479,570,160 | 188,409,170 | 187,579,040 |
| Grant y Llywodraeth 2021/22 | | 4,651,494,400 | 194,793,140 | 194,793,140 |
| | Cynnydd £ | 171,924,240 | 6,383,970 | 7,214,100 |
| | Cynnydd % | +3.8% | +3.4% | - |

Mae manylion pellach ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2021 i 2022 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £6.4m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2020/21 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd 3.4%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 3.8%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill.

2.4 Derbyniwyd cynnydd sylweddol mewn "cash" oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd gostyngiad cymharol mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

2.5 Bydd Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar yr 2il o Fawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar y 9fed o Fawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2021/22, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

2.7 Ar y wyneb, mae setliad awdurdodau lleol Cymru am 2021/22 yn un go rhesymol, ond mae hynny wedi'i wrthbwyso gan gostau ychwanegol. Yn fyr, fel trafodwyd yn y gweithdai aelodau eleni, mae'r cynnydd grant yn ddigonol ar gyfer cwrdd â chwyddiant, ond annigonol ar gyfer cyfarch hefyd y cynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2021/22

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2021/22.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 261,837,750 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 3,498,200 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 2,560,210 | |
| Ardollau (Tân, APCE a CNC) | 334,870 | |
| Demograffi | 250,280 | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 3,587,520 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | 232,550 | |
| Cost Benthyca / Llog ar Falansau | 174,910 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 10,638,540 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2021/22 cyn arbedion | | 272,476,290 |

Pe bai'r Cygnor yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor i 100%, yna byddai addasiad i'r ffigyrau uchod, gyda £3,918,250 o gynnyrch premiwm ychwanegol i'w neilltuo i gronfa

benodol, cyfanswm net yr ychwanegiadau yn £14,556,790 a chyfanswm gofynion gwario 2021/22 cyn arbedion felly yn £276,394,540.

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2020/21**

Er mai £262m yw gwariant net 2020/21, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £430m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £109m ac yn codi incwm cyffredinol bron i £59m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £3.5m**

Er gwaethaf dyhead Canghellor Llywodraeth y DU i 'rewi cyflogau', darperir ar gyfer cynnydd tâl o £250 pro rata i staff ar gyflogau £24,000 neu is, ynghyd â darpariaeth darbodus ar gyfer holl staff y Cyngor, rhag ofn bydd cyfaddawd ar y cytundebau tâl cenedlaethol fydd yn weithredol o Ebrill 2021.

Ymhellach, darperir yma ar gyfer cynnydd tâl 3.1% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2021 (effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2020). Hefyd wedi'i gynnwys yma, mae cost incrementau net o drosiant sydd eleni yn golygu dyrannu £116,500 ychwanegol i ysgolion cynradd, a £96,000 ychwanegol i ysgolion uwchradd (cyfanswm £212,500).

3.4 **Chwyddiant Arall £2.6m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i'n cyflenwyr preifat (yn cynnwys £305k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol, a £328k ar gyfer cwmnïau gofal di-breswyl), ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£182k) a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro (tacsis ysgolion £207k, ac yswiriant £229k).

3.5 **Ardollau £335k**

Yn Rhagfyr 2020, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 3.15% ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2021/22, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £233k. Am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, mae cynnydd o £96k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac hefyd amcan cynnydd o £6k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru'.

3.6 **Demograffi £250k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£187k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£30k i'r Adran Gofal Oedolion i gyfarch y nifer cynyddol o bobl fydd angen gofal mewn poblogaeth sy'n heneiddio, a +£33k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.

Mae'r ffigwr net o +£187k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£447k a cynradd -£260k.

3.7 **Pwysau ar Wasanaethau £3.6m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol, yn cynnwys £3.59m refeniw a £296k cyfalaf.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £3.59m a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £1,348,500 ac i ariannu'r rhain o gyllideb Corfforaethol (tua £1m neilltuwyd yn benodol ar gyfer gwariant un-tro yng nghyllideb 2020/21), gyda'r balans (£345k) i'w ariannu yn 2021/22 o falansau cyffredinol y Cyngor.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy 'Gynllun y Cyngor' (i'w ariannu o'r Gronfa Trawsffurfio y Cyngor).

Beth gyflwynir yn y "bidiau" yma'n Atodiad 2 yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Rhoddir yr hawl i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet, cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 25-28 Ionawr 2021, lle roedd y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.8 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol £233k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf addasiadau i leihau targed incwm ffioedd a phrisiau y Gwasanaeth Morwrol.

3.9 **Costau Benthyca a Llog ar Falansau £175k**

Rhagamcan o ostyngiad (£145k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2021/22, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â lleihad £320k mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

3.10 **Covid-19**

Yn yr adroddiad Adolygiad o Gyllideb Refeniw 2020/21 i gyfarfod y Cabinet 26 Ionawr 2021, nodwyd fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu Cyngor Gwynedd gyda hawliadau grant gwerth £12m o'u Cronfa Caledi yn y 9 mis cyntaf, a disgwylir bydd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth yn sgil argyfwng Covid19 oddeutu £20m erbyn diwedd 2020/21. Wedi nodi dyraniad arian yng nghyllideb 2021/22 Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid19, ac agwedd gefnogol Gweinidogion a swyddogion yno i awdurdodau lleol Cymru, mae'n ragdybiaeth cyllidebu rhesymol fod Llywodraeth Cymru am barhau i'n digolledu am gostau ychwanegol a cholledion incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf. Felly, yng nghyllideb 2021/22 Cyngor Gwynedd, rydym wedi peidio cynnwys darpariaeth ychwanegol i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng, gan gymryd (ar wahân i arbedion heb eu gwireddu) bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn.

## 4. ARBEDION

4.1 Mae Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd. Ers 2015/16, mae dros £30m o gynlluniau arbedion wedi'u gwireddu gan Cyngor Gwynedd, ond amcangyfrif na fydd gwerth £3.3m o arbedion yn cael eu gwireddu.

4.2 Ar 13 Hydref, ddaru'r Cabinet nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, yn hytrach na rhuthro i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol yng nghanol yr argyfwng.

4.3 Yn dilyn ystyriaeth o adroddiadau 'Trosolwg Arbedion 2020/21' a 'Strategaeth Cyllideb 2021/22' gan y Cabinet ar 13 Hydref 2020, ddaru'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod pob Aelod Cabinet unigol gyda'u penaethiaid adran i drafod sut i symud ymlaen efo'u arbedion arfaethedig, er gwaethaf yr argyfwng.

4.4 Ar 26 Ionawr 2021, adroddwyd yn ôl o'r cyfarfodydd gyda'r adrannau mewn adroddiad 'Sefyllfa Arbedion' i'r Cabinet, lle penderfynwyd gohirio neu dileu arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu – fel amlinellir yn y tabl 'Gohirio / Dileu' isod (mae mwy o fanylion yn Atodiad 3, ac yn yr adroddiad Cabinet 26 Ionawr).

| **Arbedion** | **Gohirio i 2022/23 £** | **Dileu £** |
|---|---:|---:|
| Cynlluniau 2017/18-2020/21 | 1,037,750 | 848,040 |
| Cynlluniau 2021/22 | 511,250 | 595,450 |
| **CYFANSWM** | **1,549,000** | **1,433,490** |

4.5 Felly, bydd gwerth £1,106,700 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol erbyn 2021/22 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2021/22. Ymhellach, defnyddiwyd £1.6m o ddarpariaeth yn y gyllideb i ariannu'r £1.9m o gynlluniau hanesyddol sydd heb eu gwireddu, gyda'r bwlch gweddilliol £242,790 i ddod o'r arbedion bwriedir cyflawni yn 2021/22.

4.6 Wedi'r addasiadau uchod i'r rhaglen arbedion, mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2021/22 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2021/22** | |
|---|---:|
| | £ |
| Adran Addysg ac Ysgolion | 65,000 |
| Adran Plant a Chefnogi Teulueodd | 23,170 |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 78,750 |
| Adran Tai ac Eiddo | 302,050 |
| Adran Cefnogaeth Gorfforaethol | 117,750 |
| Adran Cyllid (a T.G.) | 100,000 |
| Adran Amgylchedd | 73,750 |
| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 206,250 |
| **Cyfanswm Arbedion Blaenorol Cymeradwy 2021/22** | **966,720** |
| Llai: Ariannu balans gohirio a dileu cynlluniau | 241,790 |
| **Arbedion net ar gael i leihau bwlch Cyllideb 2021/22** | **724,930** |

4.7 Er mwyn dygymod gyda bwlch ariannu cyllideb 2020/21, gellid cynhaeafu £967k o arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo, ond penderfynwyd eisoes i ddefnyddio £242k ohono ar gyfer ariannu cost gohirio a dileu cynlluniau arbedion hanesyddol 2017/18 - 2020/21 nad oedd modd i'w gwireddu.

4.8 Ar wahân i'r arbediad effeithlonrwydd caffael Ynni yn rhatach (£150,790) cymeradwyodd y Cabinet yn ystod 2020, mae'r holl gynlluniau arfaethedig sydd i'w gwireddu yn 2021/22 (gyda'r arbedion i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau perthnasol) eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor mewn blynyddoedd blaenorol.

4.9 O ganlyniad, yn y gyllideb hon argymhellir i'r Cyngor llawn, bydd cyfanswm net o £725k o arbedion i'w ddefnyddio i leihau bwlch ariannu cyllideb 2020/21.

## 5. BWLCH ARIANNU 2021/22, A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o ran 2 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2021/22 yn £272.5m (gyda premiwm 50%) / £276.4m (gyda premiwm 100%). Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £194.8m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £725k o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

**Sefydlu Cyllideb 2021/22**

| | Premiwm Treth Cyngor **50%** | Premiwm Treth Cyngor **100%** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyllideb Sylfaenol 2020/21 | 261,837,750 | 261,837,750 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,638,540 | 14,556,790 |
| Gofynion Gwario 2021/22 cyn Arbedion | 272,476,290 | 276,394,540 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | -194,793,140 | -194,793,140 |
| llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | -724,930 | -724,930 |
| Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor | 76,958,220 | 80,876,470 |

5.3 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £77m (gyda premiwm 50%) / £81m (gyda premiwm 100%), ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 3.7% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.

5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.5 Felly, argymhellir codi'r dreth 3.7%, fydd yn cynhyrchu £77m / £81m o dreth erbyn 2021/22, sydd yn £2.7m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £52.92 i eiddo mewn Band D, neu £1.02 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan yr Awdurdod Heddlu (cynnydd o 5.14% ar gyfer 2021/22) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.6 Yn 2020/21 roedd lefel Band D Gwynedd yn £1,430, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,354. Fodd bynnag, mae hynny am resymau hanesyddol, gan fod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd ers 2014/15 yn 4.2% ar gyfartaledd, sy'n llai na'r cynnydd 4.4% a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod (gwelir y ffigyrau blynyddol yn Atodiad 6).

5.7 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 3.7% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid gwario llai ar wasanaethau Yr opsiwn drafodwyd yn y gweithdai aelodau oedd i beidio ariannu rhai o'r bidiau refeniw parhaol 'Categori 2' a geir yn Atodiad 2b. Mae'r bidiau 'Categori 1' bron yn anorfod, ond mae ychydig mwy o ddisgresiwn gyda'r bidiau 'Categori 2'. Nodir yn y golofn dde yn Atodiad 2b faint byddai'r Dreth Cyngor ar gyfer 2021/22 yn gostwng drwy beidio cymeradwyo'r bidiau 'Categori 2' unigol.

5.8 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a cafwyd sawl sgwrs am hyn yn y gweithdai aelodau eleni. Ar gyfer 2021/22 mae'r cyfartaledd o gynnydd treth yr awdurdodau lleol eraill ledled Cymru yn debygol o fod tua 4.1%, ac mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 3.7% yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2021/22

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2021/22 ac er gwaethaf cynnydd grant digonol ar gyfer cwrdd â chwyddiant eleni, mae'n cadarnhau rhaid parhau i gynhaeafu arbedion hanesyddol a chodi lefel y dreth ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £271.8m (gyda premiwm Treth Cyngor o 50%) / £275.7m (gyda premiwm 100%), wedi ychwanegu £10.6m (50%) / £14.5m (100%), sy'n cynnwys darparu £3.6m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £194.8m a dibynnu ar £725k o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 3.7% i gynhyrchu £77m (50%) / £81m (100%) o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2021/22.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2021/22** | | |
|---|---|---|
| | Premiwm Treth Cyngor 50% | Premiwm Treth Cyngor 100% |
| | £ | £ |
| Gofynion Gwario 2021/22 cyn Arbedion | 272,476,290 | 276,394,540 |
| Cyfanswm Arbedion 2021/22 | -724,930 | -724,930 |
| Cyllideb 2021/22 | 271,751,360 | 275,669,610 |
| *I'w ariannu drwy -* | | |
| Incwm Grant | 194,793,140 | 194,793,140 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 3.7%) | 76,958,220 | 80,876,470 |
| Cyllideb 2021/22 | 271,751,360 | 275,669,610 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £271,751,360 (gyda premiwm 50%) / £275,669,610 (100%). Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiadau 1a (Premiwm Treth Cyngor 50%) ac 1b (Premiwm Treth Cyngor 100%).

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2021/22. Mae manylion yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r 2 dabl yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb 2021/22 i 2023/24, ac er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £47,085,960 yn 2021/22, i'w ariannu o'r ffynonellau wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido Bidiau Cyfalaf, ar gyfer 2021/22, £296k yw cyfanswm y 6 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2ch. Wedi gwrando ar adborth aelodau yn y gweithdai cyllideb a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r 6 bid, a bydd y £204k sydd yn weddill yn cael ei ychwanegu at ddarpariaeth 2022/23 ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Mewn rhai blynyddoedd blaenorol, cynhwyswyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r adroddiad cyllideb. Eleni, fel llynedd, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol cyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Canghellor Llywodraeth San Steffan yn ystod haf 2021.

8.2 Rhaid i awdurdodau lleol Cymreig ddarogan polisi / bwriad Llywodraeth Cymru yn ogystal, ac wrth gwrs bydd setliad grant awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn ddibynnol ar ganlyniad etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021.

8.3 Nid yw'n eglur eto pryd cawn arwydd o ganlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr.

8.4 Felly, byddaf yn cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gyfarfod dilynol o'r Cabinet yn ystod yr haf, er mwyn adnabod y risg o fod angen ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae'r gyllideb yma'n argymell defnydd o £345k o'r balansau er mwyn ariannu swm gweddilliol y bidiau refeniw un tro. Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £8m, ac ar ôl defnyddio'r £345k uchod a chyfarch effaith Covid-19 ar gyfrifon diwedd blwyddyn 2020/21, ystyrir bydd lefel y balansau yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2021/22', yn egluro sefyllfa teg 'bargen' cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ysgafnach eleni, gan nad ydym yn cyflwyno unrhyw gynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Fodd bynnag, yn unol â'r drefn arferol, mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb.

9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro:**
Mae'r argymhelliad gan y Cabinet ar gyfer y gyllideb yn anorfod yn ganlyniad proses fanwl sydd yn dwyn at eu gilydd ystyriaethau statudol, cyllidol a blaenoriaethu. Yn unol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor mae hyn yn cynnwys trosolwg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Dylai'r Cyngor ddal sylw at y cyfan o'r asesiadau ac ymgynghoriadau a gyfeirir atynt a'r canfyddiadau sydd yn deillio wrth ystyried cymeradwyo'r argymhelliad. Bydd mabwysiadu'r Gyllideb yn sefydlu fframwaith gyllidol fydd yn caniatáu y Cabinet i symud ymlaen a blaenoriaethau'r Cyngor.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma yn unol â phenderfyniad Cabinet 16 Chwefror ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2021/22 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1a | Cyllidebau Arfaethedig (Premiwm Treth Cyngor 50%) |
| 1b | Cyllidebau Arfaethedig (Premiwm Treth Cyngor 100%) |
| | |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol Categori 1 |
| 2b | Bidiau Refeniw Parhaol Categori 2 |
| 2c | Bidiau Refeniw Un-tro |
| 2ch | Bidiau Cyfalaf |
| | |
| 3 | Arbedion |
| | |
| 4 | Cyfalaf |
| | |
| 5 | Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2021/22 |
| | |
| 6 | Treth Cyngor |
| | |
| 7 | Balansau |
| | |
| 8 | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| | |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| | |
| 10 | Cadernid yr Amcangyfrifon |
| | |
| 11 | Penderfyniad Ffurfiol |